# Arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol wrth arwain eich arddull(iau) dawns

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth technegol gennych i arddangos, disgrifio neu gywiro symudiadau eich cyfranogwyr a'u galluogi i ddysgu, yn fanwl-gywir, am eu cyrff a'r arddull(iau) dawns rydych chi'n eu darparu neu'n eu datblygu yn eich cyfranogwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol yn yr arddull(iau) dawns rydych chi'n eu cynnig yn eich sesiynau i ysbrydoli eich grwp
2. bod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf mewn ymarfer dawns proffesiynol a'u defnyddio yn eich ymarfer
3. sylweddoli pan fydd cyfranogwyr yn perfformio symudiad a allai achosi niwed i'r corff yn y tymor hir neu'r tymor byr a gallu ymateb â chyfarwyddiadau llafar a/neu arddangosiad corfforol er mwyn sicrhau y cyflawnir hyfedredd
4. rhoi cyfarwyddiadau cywiro sy'n cefnogi gwahaniaeth ac yn rhoi sylw i godau ymddygiad moesegol ynghylch cyffwrdd, gofod personol a dulliau dysgu priodol ar gyfer cyfranogwyr

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. lefel eich gallu yn eich dewis arddull(iau) dawns
2. pwysigrwydd gloywi eich ymarfer symud a'ch gwybodaeth yn briodol ar gyfer yr arddulliau a'r prosesau dawns y byddwch yn eu harwain
3. pwysigrwydd gwybodaeth anatomegol yng nghyswllt yr arddulliau dawns rydych chi'n eu harwain
4. sut mae arddangos a chywiro aliniad y corff, a darparu her briodol i wella profiad dawnsio'r dysgwyr
5. sut a phryd mae arddangos, herio a chefnogi er mwyn ysbrydoli ac ysgogi cyfranogwyr

## Geirfa

**Arddull ddawns** - mae'r term hwn yn cwmpasu'r arddulliau dawns niferus (y cyfeirir atynt hefyd fel genre, ffurfiau) sy'n bodoli, i enwi rhai enghreifftiau yn unig: dawnsio stryd, dawns o dde Asia, dawnsio gwerin, dawns pobl Affrica, bale, dawnsio anarddulliedig, ymarfer somatig, dawnsio cyfoes.

CCSDL14

Arddangos sgiliau a gwybodaeth technegol wrth arwain eich arddull(iau) dawns

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Creative & Cultural Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2011 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Rhag 2016 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau Creadigol a Diwylliannol |
| **RCU gwreiddiol** | CCSDL14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Artistig a Llenyddol, Celfyddydau Perfformio |
| **Cyfres/Set** | Arweinyddiaeth Ddawns |
| **Geiriau Allweddol** | Arweinyddiaeth ddawns, dawns cymunedol, cyfranogi mewn dawns, symudiadau dawns, dawns |